# Swyddfa Archwilio Cymru

## (Swyddfa Archwilydd Cyffredinol Cymru)

# Amcangyfrif o'r incwm a'r treuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006

*Cyflwynwyd i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Adran 93(4) Deddf Llywodraeth Cymru 1998*

**Medi 2004**

# Amcangyfrif o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006

**Cefndir**

1. O dan Adran 93 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, mae'n ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru dalu treuliau Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r graddau na ellir eu talu o incwm o ffynonellau eraill. Er mwyn ategu ceisiadau am adnoddau mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno amcangyfrifon blynyddol o incwm a threuliau i'w hystyried gan Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad.

2. Mae'r Archwilydd Cyffredinol, gyda chefnogaeth Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, yn archwilio cyfrifon y Cynulliad a'i gyrff noddedig a'i gyrff cyhoeddus cysylltiedig ar hyn o bryd, ac mae ganddo'r grym i archwilio pob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru heblaw llywodraeth leol o ran darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (gwerth am arian). Wrth ddatblygu ei flaenraglen gwerth am arian, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried barn y Pwyllgor Archwilio.

3. Caniateir i'r Archwilydd Cyffredinol godi ffi am archwilio cyfrifon heblaw'r rhai a baratoir gan y Cynulliad. Ariennir y gwaith o archwilio cyfrifon y Cynulliad, gwaith gwerth am arian a gweithgareddau eraill, gan gynnwys cefnogaeth a ddarperir i'r Pwyllgor Archwilio, gan grant y Cynulliad. Paratowyd yr amcangyfrifon ar gyfer blynyddoedd blaenorol ar y sail hon, ac fe'u hystyriwyd gan y Pwyllgor ochr yn ochr â blaenraglenni archwilio gwerth am arian drafft yr Archwilydd Cyffredinol.

4. Yn sgîl Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, bydd newidiadau mawr i'r gyfundrefn archwilio ac arolygu ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n trosglwyddo'r swyddogaethau a gyflawnir ar hyn o bryd gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru o ran iechyd a llywodraeth leol i'r Archwilydd Cyffredinol. Mae hefyd yn galluogi Swyddfa Archwilio Cymru i gael ei chreu, o dan arweiniad yr Archwilydd Cyffredinol, drwy drosglwyddo staff y Comisiwn

Archwilio a Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru i gyflogaeth yr Archwilydd Cyffredinol. Yn amodol ar wneud yr is-ddeddfwriaeth angenrheidiol, disgwylir i'r newidiadau hyn ddod i rym ar 1 Ebrill 2005. Mae'r Ddeddf hefyd yn gwneud nifer o welliannau i'r gyfundrefn archwilio ac arolygu yng Nghymru, ac yn eu plith mae gwell hawliau mynediad i archwilwyr ddilyn arian cyhoeddus i'r rhai a fydd yn ei dderbyn yn y pen draw a dyletswyddau i gydweithredu a rhannu gwybodaeth gydag arolygiaethau eraill sy'n gweithredu yng Nghymru (yn arbennig y Comisiwn Gofal Iechyd ac Uned Arolygu Iechyd Cymru). Mae disgwyl hefyd y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cydweithio ag asiantaethau archwilio eraill y DU – er enghraifft drwy rannu staff a chynhyrchu adroddiadau trawsffiniol.

5. Mae creu corff archwilio ac arolygu unedig ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru yn cynnig cyfle gwych i greu sefydliad o'r radd flaenaf, sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif ac yn un sy'n gallu gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl Cymru. Bydd gan y sefydliad y pwerau i ddilyn arian cyhoeddus mewn llinell syth drwy'r gadwyn ariannu i sicrhau y caiff ei wario'n briodol ac yn ddoeth, yn ogystal â'r gallu i ymgymryd ag astudiaethau o natur drawsbynciol a chyflwyno adroddiadau cyfannol ar y modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus. Felly mae'r gwaith a ddisgwylir gan y sefydliad newydd yn debygol o fod yn llawer mwy na'r hyn a gynhyrchir ar hyn o bryd gan y ddau gorff archwilio yng Nghymru.

6. Mae gweddill y ddogfen hon yn nodi'r prif ffactorau yr wyf fi, fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, wedi gorfod eu hystyried wrth greu'r sefydliad newydd, y gwariant y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn mynd iddo o ran y gwaith y bydd yn ei wneud, a'r ffynonellau incwm amrywiol. Mae hefyd yn nodi'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag asesu'r incwm a'r treuliau tebygol ar yr adeg hon. Daw'r ansicrwydd hwn yn sgîl sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru, a deinameg ac amseriad peth o'r gwaith a wneir ar hyn o bryd gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru, yn arbennig mewn llywodraeth leol. Dylai'r amcangyfrif gael ei ddarllen ar y cyd â'r flaenraglen waith arfaethedig, a drafodaf gyda'r Pwyllgor ar 30 Medi 2004.

**Ffactorau sy'n effeithio ar greu Swyddfa Archwilio Cymru**

7. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at leihau'r baich archwilio ac arolygu ar ei gleientiaid. Bydd yn sicrhau'r effaith fwyaf o ran gwella gwasanaethau cyhoeddus er budd y rhai a fydd yn eu defnyddio. Bydd yn sicrhau y caiff y gwasanaethau hynny eu rheoli'n effeithiol a'u bod yn rhoi gwerth am arian. Bydd yn herio'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus ac yn craffu ar ei gweithgareddau ei hun er mwyn sicrhau ei bod yn rhoi gwerth am arian drwy ddileu gweithgareddau diangen.

8. Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer trosglwyddo staff y Comisiwn Archwilio a staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng Nghymru i Swyddfa Archwilio Cymru gyda pharhad cyflogaeth ac ar amodau a thelerau nad ydynt yn llai ffafriol na'r rhai a oedd ar waith yn union cyn trosglwyddo. Felly mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymrwymedig i sicrhau nad yw'n waeth ar y staff hynny na phe baent yn aros gyda'u cyflogwr presennol. Nid yw fy amcangyfrif ar gyfer 2005-06 yn darparu ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol y byddai'n rhaid mynd iddynt efallai mewn blynyddoedd i ddod i gwmpasu newidiadau sefydliadol a strwythurol a allai fod yn angenrheidiol wrth i'r sefydliad newydd ymsefydlu. Mae hanes yn awgrymu y bydd angen newidiadau o'r fath.

9. Bydd yr union drefniadau ar gyfer trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau o'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Comisiwn Archwilio i Swyddfa Archwilio Cymru yn destun Cynlluniau Trosglwyddo i'w gwneud drwy Orchymyn Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyda chaniatâd y Cynulliad, yn dilyn ymgynghoriad â'r trosglwyddwyr a'r trosglwyddedig. Yn amodol ar ddarpariaethau'r Gorchmynion hyn, gall Swyddfa Archwilio Cymru ddisgwyl cael dodrefn ac offer arall (gan gynnwys offer TG) gyda gwerth llyfr net o tua £750,000. Pe bai'r nwyddau hyn wedi aros gyda'r sefydliadau presennol, byddai Swyddfa Archwilio Cymru wedi gorfod gwario cryn dipyn yn fwy na'r swm hwnnw ar bryniannau cyfalaf newydd a byddwn wedi gorfod galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ariannu caffaeliadau o'r fath. Mae materion eraill sy'n ymwneud â throsglwyddo asedau a rhwymedigaethau o'r rhiant-sefydliadau yn debygol o gael eu cynnwys hefyd yn y Cynlluniau Trosglwyddo. Nid yw gwerth posibl y materion hyn yn hysbys eto.

10. Bydd y Gorchmynion Trosglwyddo yn darparu ar gyfer trosglwyddo'r prydlesau ar yr adeiladau presennol a ddefnyddir gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Comisiwn Archwilio i'r Archwilydd Cyffredinol ynghyd ag ymrwymiadau cytundebol cysylltiedig (e.e. trefniadau rheoli cyfleusterau). Dros amser, wrth i'r prydlesau presennol ddod i ben, dylai fod yn bosibl symleiddio adeiladau a swyddfeydd Swyddfa Archwilio Cymru ac, wrth wneud hynny, sicrhau arbedion o ran effeithlonrwydd. Disgwylir i rwymedigaethau parhaus eraill a gweithredoedd sydd mewn grym ar adeg y trosglwyddo gael eu trosglwyddo hefyd.

11. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn dibynnu'n helaeth ar hyn o bryd ar eu priod bencadlysoedd am wasanaethau canolog, gan gynnwys, er enghraifft:

- Cyllid – talu biliau, anfonebu, paratoi cyfrifon rheoli a datganiadau ariannol diwedd y flwyddyn, datblygu a chynnal rheolaethau ariannol cadarn, cynllunio ariannol ac ati.

- Adnoddau dynol – recriwtio, hyfforddi a datblygu, cyflogres, arfarnu perfformiad, gwaith achos, polisïau a gweithdrefnau ar ystod eang o faterion (megis presenoldeb a lles, disgyblaeth a chwynion, a chyflog a buddiannau) ac ati.

- Technoleg gwybodaeth – darparu a chynnal a chadw rhwydwaith, cymwysiadau meddalwedd, y rhyngrwyd a'r fewnrwyd, mynediad o bell, desg gymorth, cymorth i gymwysiadau gwasanaeth cymorth eraill (megis cyllid ac adnoddau dynol) ac ati.

- Cymorth technegol – o ran archwiliadau ariannol a gwerth am arian (gan gynnwys darparu hyfforddiant technegol), a chyngor ar faterion cyfreithiol, polisi ac ystadegol ac ati.

12. Bydd angen i Swyddfa Archwilio Cymru sicrhau ei ffynonellau ei hun ar gyfer gwasanaethau canolog o'r fath. Efallai y bydd yn bosibl i'r ddau sefydliad gwreiddiol ddarparu peth o'r cymorth hwn (am ffi), naill ai fel trefniant dros dro neu drefniant tymor hwy. At ei gilydd, fodd bynnag, mae'n debygol y bydd

cynnydd mewn costau cynnal o gymharu â'r cyfundrefnau presennol o ganlyniad i golli arbedion maint, yn arbennig wrth i'r sefydliad newydd ymsefydlu. Wrth gwrs, caiff cyfran briodol o'r rhain a newidiadau eraill mewn cost eu hadlewyrchu yn y ffioedd a godir ar gyfer gwasanaethau archwilio ac arolygu.

13. Er gwaethaf y pwysau hyn o ran costau, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod ei gweithrediadau ei hun yn cynrychioli gwerth am arian. Yn arbennig, bydd y sefydliad newydd yn edrych am arbedion effeithlonrwydd ym mlynyddoedd cynnar ei fodolaeth – er enghraifft, wrth symleiddio adeiladau a swyddfeydd a chyflenwadau a gwasanaethau o bosibl – a chyflwyno gwell gwerth am arian drwy gydweithredu a chydweithio effeithiol. Bydd hyn yn cefnogi ein nod o leihau'r baich o ran gwaith archwilio ac arolygu yng Nghymru a sicrhau bod y gwaith hwnnw yn cael yr effaith fwyaf.

14. Mae'r Comisiwn Archwilio wedi penodi cwmnïau yn y sector preifat i archwilio nifer o gyrff llywodraeth leol a chyrff y GIG yng Nghymru (mae gweddill yr archwilwyr penodedig yn gyflogeion y Comisiwn Archwilio). Mae'r rhan fwyaf o'r penodiadau hyn yn para tan 2007 a gellir eu hymestyn drwy gytundeb. O dan y ddeddfwriaeth, caiff y penodiadau hyn eu trosglwyddo i'r Archwilydd Cyffredinol a fydd yn rhwym o gadw at eu hamodau a'u telerau tra'u bod yn para.

15. Nodwyd manylion costau cyfalaf a refeniw sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru (e.e. TG a rhwydweithio telathrebu, caledwedd, meddalwedd a rheoli prosiectau) y disgwylir iddynt gael eu gwario yn 2004-05 a 2005-06 yn y gyllideb gost sefydledig ac fe'u cymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 6 Mai 2004 (os ydych am gyfeirio atynt, cynhwysir y prif eitemau gwariant yn Atodiad A y memorandwm hwn). Mae trefniadau ariannol arbennig ar waith i roi cyfrif ar wahân ar gyfer y costau trosiannol hyn er mwyn osgoi'r posibilrwydd o gyfrif ddwywaith. Cânt eu heithrio felly o'r amcangyfrif hwn ond caiff y swm y disgwylir iddo gael ei dalu yn 2005-06 ei gynnwys mewn ceisiadau am adnoddau wrth ddefnyddio grant y Cynulliad.

**Materion ariannol eraill sy'n effeithio ar gyllideb Swyddfa Archwilio Cymru**

***a) Gwaith archwilio ychwanegol***

16. **Ailstrwythuro** – ym mis Gorffennaf 2004, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru ailstrwythuro radical a olygai fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn swyddogaethau Awdurdod Datblygu Cymru, Dysgu ac Addysgu Cymru (ELWa) a Bwrdd Croeso Cymru. Disgwylir cyhoeddiad arall a allai effeithio ar nifer o gyrff cyhoeddus eraill a noddir gan y Cynulliad yn ddiweddarach yr hydref hwn. Fel gydag achosion blaenorol o ailstrwythuro, bydd y staff archwilio yn gweithio'n agos gyda rheolwyr y cyrff dan sylw, gan ddarparu cyngor a lledaenu arferion gorau tra'n sicrhau na pheryglir annibyniaeth a gwrthrychedd archwilio. Serch hynny, o'n profiad archwilio blaenorol – er enghraifft, ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996, creu ELWa yn 2001 a chreu byrddau iechyd lleol yn lle awdurdodau iechyd yn 2003 – mae unrhyw waith ailstrwythuro o bwys o beirianwaith llywodraeth yn arwain at fwy o risgiau o lawer i reolaeth ariannol barhaus y sefydliadau dan sylw ac i barhad y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus. Yn 2005-06, bydd angen i Swyddfa Archwilio Cymru ystyried hyn a chyflawni gwaith archwilio ychwanegol priodol.

17. Ni fydd y ffaith bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgorffori'r swyddogaethau a gyflawnir ar hyn o bryd gan gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn effeithio'n sylweddol ar lefel y craffu o ran gwaith archwilio y bydd angen ei wneud ar y gwasanaethau cyhoeddus hynny. Mae hyn oherwydd na ddylai ad-drefnu swyddogaethau leihau gallu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddal y weithrediaeth i gyfrif.

18. **Adolygiad o Wariant 2004** – o dan delerau'r adolygiad, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf eleni, bydd Cymru yn elwa ar gynnydd yn yr adnoddau a fydd ar gael i'r Cynulliad Cenedlaethol o £841 miliwn, neu wyth y cant, yn 2005-06. Disgwylir i gyfanswm arian y Canghellor am y flwyddyn honno fod yn £11.8 biliwn. Cynllunnir cynnydd pellach, o faint cymharol debyg, ar gyfer y ddwy flwyddyn ganlynol. Bydd angen i'r gwariant ychwanegol dilynol – ac unrhyw incwm cynyddol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru – gael ei archwilio wrth gwrs

a bydd hyn yn anochel yn arwain at gostau ychwanegol o'u cymharu â'r rhai yr aethpwyd iddynt yn 2004-05.

19. **Llywodraethu corfforaethol cryfach** – mae nifer o fethiannau corfforaethol proffil uchel yn ddiweddar, megis Enron, wedi arwain at ymwybyddiaeth o'r newydd o bwysigrwydd trefniadau llywodraethu o fewn sefydliadau. Er enghraifft, ym mis Gorffennaf 2003 cyhoeddodd y Cyngor Adroddiadau Ariannol God Cyfunol ar Lywodraethu Corfforaethol, yn adlewyrchu canfyddiadau adroddiadau cynharach, megis un Derek Higgs. Mae llawer yn yr adroddiadau hyn sy'n berthnasol i bob corff yn y sector cyhoeddus ac rwyf yn ymrwymedig i gymhwyso'r safonau archwilio uchaf ac i helpu cyrff archwiliedig i gyflawni'r safonau uchaf o ran adroddiadau ariannol a llywodraethu corfforaethol. Er enghraifft, mae archwilwyr yn chwarae mwy o ran yn y gwaith o sicrhau bod pwyllgorau archwilio sefydliadau ac aelodau anweithredol mor effeithiol â phosibl. Mae hyn yn arwain at waith ychwanegol, megis hyfforddiant, yn ogystal â'r gweithgaredd archwilio cynyddol er mwyn darparu'r sicrwydd angenrheidiol mewn perthynas â llywodraethu corfforaethol.

20. Disgwylir i'r tair agwedd hyn ar waith ychwanegol a newidiadau eraill megis ehangu cyfrifon llywodraeth gyfan gan gynnwys y sector cyhoeddus ehangach (yn cynnwys llywodraeth leol ac ymddiriedolaethau'r GIG) arwain at gostau archwilio uwch yn 2005-06 o tua £300,000. Byddai'r costau ychwanegol hyn wedi codi hyd yn oed pe na bai Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 wedi ei phasio a phe na bai newidiadau wedi eu gwneud i'r fframwaith archwilio ac arolygu presennol.

***b) Costau pensiwn staff***

21. Ni fydd staff Swyddfa Archwilio Cymru yn weision sifil ond, byddant, fel nifer o gyrff eraill yn y sector cyhoeddus na chânt eu staffio gan weision sifil, yn gymwys i gael aelodaeth o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Bwriad rheolwyr y Cynllun yw cynyddu'r cyfraniadau sy'n daladwy gan bob un o gyflogwyr aelodau PCSPS o 1 Ebrill 2005. Bydd cost y cynnydd hwn i Swyddfa Archwilio Cymru a gynhwysir yn amcangyfrif 2005-06 tua £600,000.

***c) Treth Ar Werth***

22. Ar hyn o bryd mae'r Comisiwn Archwilio yn ychwanegu TAW at ei ffioedd archwilio ac arolygu a godir ar lywodraeth leol a chyrff y GIG. Mae'r TAW hon sydd i'w derbyn wedi ei gwrthbwyso yn erbyn y TAW sy'n daladwy ar gyflenwadau a gwasanaethau, gan gynnwys cost y gwaith archwilio a gyflawnir gan gwmnïau a benodwyd neu sydd o dan gontract yn y sector preifat. Mae Tollau Tramor a Chartref ei Mawrhydi wedi cwestiynu'r cyfiawnhad dros ychwanegu TAW at rai ffioedd er bod yr arfer yn parhau tra'n aros am ddyfarniad terfynol. Mae problem debyg gydag Audit Scotland.

23. O gofio'r datblygiadau hyn, mae lle i amau gallu Swyddfa Archwilio Cymru – unwaith y caiff swyddogaethau'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru eu trosglwyddo i Archwilydd Cyffredinol Cymru – i barhau i godi TAW ar daliadau am rai o'i gwasanaethau archwilio ac arolygu neu'r gwasanaethau i gyd ac mae angen egluro hyn o hyd a chael gwared ag unrhyw ansicrwydd. Bydd unrhyw ostyngiad i'r TAW y gellir ei chodi yn cynyddu'r gost i Swyddfa Archwilio Cymru i bob pwrpas ar gyfer caffael cyflenwadau a gwasanaethau.

24. Mae hwn yn fater cymhleth iawn y mae angen ymdrin ag ef o ganlyniad uniongyrchol i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Felly mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ceisio egluro statws TAW Swyddfa Archwilio Cymru ar hyn o bryd gyda'r Trysorlys a'r Tollau Tramor a Chartref. Gellid gwneud dyfarniadau gwahanol am y ffynonellau amrywiol o incwm yn dibynnu ar y darpariaethau statudol sylfaenol. Gallai'r gost ychwanegol bosibl i Swyddfa Archwilio Cymru, yn dibynnu ar union ganlyniad y trafodaethau hyn, fod mor uchel â £1.3 miliwn y flwyddyn.

25. Tra'n aros i'r materion hyn gael eu datrys, rwyf wedi cymryd yn ganiataol y bydd y trefniadau presennol yn parhau yn ddigyfnewid at ddiben llunio amcangyfrif 2005-06 ac <u>nid</u> wyf wedi cynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer TAW ychwanegol na ellir ei hadennill. Os bydd angen gwneud unrhyw newidiadau, bydd angen i Swyddfa Archwilio Cymru drafod gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a ddylid ariannu unrhyw gostau cynyddol drwy ffioedd ychwanegol i gyn gleientiaid y Comisiwn Archwilio, grant y Cynulliad neu gyfuniad o'r ddau. Yn ogystal â'r ymgynghoriad arferol â chleientiaid sy'n talu

ffi, byddem, wrth gwrs, yn ymgynghori â'r Pwyllgor Archwilio pe baem yn gweld bod angen gwneud newidiadau sylweddol i'r amcangyfrif hwn.

***d) Indemniad proffesiynol ac yswiriant atebolrwydd cyflogwyr***

26. Mae'r Comisiwn Archwilio yn trefnu yswiriant indemniad proffesiynol i gwmpasu ceisiadau posibl sy'n deillio o weithredoedd neu esgeulustod ar ran ei staff neu archwilwyr penodedig. Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i'r Comisiwn hefyd yswirio rhag "atebolrwydd am anafiadau corfforol neu glefydau y mae ei gyflogeion yn eu dioddef yn sgîl eu cyflogaeth ac yn ystod eu cyflogaeth" (yswiriant atebolrwydd cyflogwyr). Ar y llaw arall, nid oes angen i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol drefnu indemniad proffesiynol nac yswiriant atebolrwydd cyflogwyr: fel corff a ariennir yn bennaf gan Gyflenwad Seneddol, mae'n "yswirio ei hun" o dan ddarpariaethau a ganiateir gan Gyfrifo Llywodraethol sy'n pennu'r rheol gyffredinol nad yw Llywodraeth yn prynu yswiriant masnachol am y risgiau a wyneba. Yr egwyddor allweddol yma yw y gellid disgwyl i gost ceisiadau yn erbyn cyrff y sector cyhoeddus a noddir gan Gyflenwadau Seneddol, yn eu crynswth, dros amser fod gryn dipyn yn llai na chost y premiymau a fyddai fel arall wedi cael eu talu i gwmnïau yswiriant yn y sector preifat.

27. Mae Adran 93 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad dalu treuliau'r Archwilydd Cyffredinol i'r graddau na ellir eu talu drwy ffynonellau eraill o incwm. Mae'r treuliau hynny yn cynnwys symiau sy'n daladwy o ganlyniad i dorri unrhyw ddyletswydd gytundebol neu ddyletswydd arall. Lluniwyd y darpariaethau hyn er mwyn i Archwilydd Cyffredinol Cymru fod yn gyfartal â'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol, o gofio eu statws a'u dyletswyddau tebyg.

28. O gofio bod swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn mynd i ehangu'n fuan ac o gofio y bydd Swyddfa Archwilio Cymru'n cael ei chreu, rwyf wedi ceisio cyngor cyfreithiol a gadarnhaodd y byddai'r Cynulliad yn y pen draw yn gyfrifol am dalu ceisiadau a wnaed yn erbyn yr Archwilydd Cyffredinol a chostau unrhyw indemniad a roddwyd i archwilwyr penodedig. Byddai'n bosibl i'r Archwilydd Cyffredinol drefnu yswiriant i leddfu cost bosibl ceisiadau o'r

fath, ond byddai'r premiymau blynyddol ar gyfer yswiriant o'r fath, a fyddai'n gorfod cael eu talu o bwrs y wlad, yn sylweddol.

29. O gofio'r cyngor hwn, dylai Grŵp Cyllid Llywodraeth y Cynulliad gadw mewn cof, yn amodol ar farn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraeth y Cynulliad, na ddylai fod yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol drefnu indemniad proffesiynol nac yswiriant atebolrwydd cyflogwyr, a byddai'r Cynulliad yn ymestyn ei arfer presennol o dalu'r gost pe bai ceisiadau dilys mawr o'r fath yn codi. Ymhlith y ffactorau allweddol eraill sy'n cefnogi'r cam gweithredu hwn mae'r canlynol:

- i'r Cynulliad y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bennaf gyfrifol am waith nad yw'n ymwneud â llywodraeth leol. Yr Archwilydd Cyffredinol yw Swyddog Cyfrifo Swyddfa Archwilio Cymru hefyd ac mae'n atebol i'r Pwyllgor Archwilio am ei reolaeth ariannol. O gofio'r darpariaethau hyn, mae'n anodd rhagweld y sefyllfa lle y byddai'r Cynulliad am wneud cais yn erbyn yr Archwilydd Cyffredinol;

- byddai unrhyw bolisi yswiriant a drefnir gydag yswiriwr yn y sector preifat yn agored i isafswm tâl-dros-ben ac uchafswm atebolrwydd; ac

- ni fu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol na'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru erioed yn destun cais llwyddiannus am esgeulustod proffesiynol, a bach iawn fu'r costau mewn perthynas â cheisiadau a wnaed gan gyflogeion.

**Sut y caiff gwaith Swyddfa Archwilio Cymru ei ariannu**

30. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru, o dan arweiniad yr Archwilydd Cyffredinol, yn ymgymryd â gwaith archwilio ac arolygu amrywiol iawn ar sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Nodir y prif elfennau, ynghyd â'r ffynonellau cyllid ar gyfer gwaith yn ystod 2005-06 yn Nhabl 1 isod.

**Tabl 1: Prif weithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru a ffynonellau cyllid**

| *Gweithgaredd* | *Graddfa* | *Sut y caiff ei ariannu* |
|---|---|---|
| Gwaith archwilio gwerth am arian/perfformiad ar y Cynulliad, y cyrff a noddir ganddo a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, GIG Cymru a'r sector addysg bellach a'r sector addysg uwch. Archwilio cyfrifon a baratoir gan y Cynulliad | Cyfanswm y gwariant yn agored i archwiliad gwerth am arian/perfformiad dros £12 biliwn. 9 o gyfrifon wedi eu paratoi gan y Cynulliad | Grant y Cynulliad |
| Archwiliad o gyfrifon a baratoir gan gyrff a noddir gan y Cynulliad a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG | Dros 60 o gyfrifon | Codir ffioedd ar gyrff a archwiliwyd |
| Gwaith archwilio ac arolygu ariannol, gwerth am arian/perfformiad (Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella) ar gyrff llywodraeth leol | 22 o awdurdodau unedol; 4 heddlu, 3 gwasanaeth tân a 4 corff prawf<br>Gwariant cyfunol dros £5 biliwn | Codir ffioedd ar gyrff a archwiliwyd ac a arolygwyd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ariannu gwaith Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella yn rhannol. |
| Gwaith ardystio grantiau a gwaith arall a wneir drwy gytundeb | Gwaith a wneir yn y 22 awdurdod unedol a sawl un o'r cyrff a noddir gan y Cynulliad | Wedi ei ariannu'n llawn gan ffioedd |
| Gwaith arall, megis cymorth i waith y Pwyllgor Archwilio a delio â gohebiaeth | Briffio'r Pwyllgor cyn ei 9-10 cyfarfod blynyddol; rhoi cyngor ar ei adroddiadau drafft, ymatebion y Llywodraeth a materion ad hoc eraill | Grant y Cynulliad |

*Noder.* Gallai gwaith o natur drawsbynciol, megis astudiaeth yn cwmpasu Llywodraeth Cynulliad Cymru a llywodraeth leol, ddod o dan fwy nag un o'r gweithgareddau uchod ac felly fe'i hariennir gan grant y Cynulliad a chan ffioedd mewn cyfrannau priodol.

31. Caiff y mwyafrif o'r gwaith a wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru neu gan gwmnïau a benodir neu sydd o dan gontract ei ariannu gan ffioedd wedi eu hanfonebu i gyrff a archwiliwyd ac a arolygwyd. Mae hyn yn groes i waith presennol yr Archwilydd Cyffredinol a ariennir yn bennaf gan grant y Cynulliad. Caiff y mwyafrif o'r ffioedd eu gosod fel eu bod yn talu am gost lawn y gwaith dan sylw.

**Dadansoddiad o'r incwm a'r gwariant amcangyfrifedig ar gyfer 2005-06**

32. Mae Tabl 2 yn rhoi rhagolwg o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2005-06, gan gynnwys dadansoddiad o'r prif feysydd gwariant.

**Tabl 2: Rhagolwg refeniw o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru 2005-06**

| ***Incwm*** | ***£m*** | ***£m*** | ***Noder*** |
|---|---|---|---|
| Archwilio ac arolygu cyrff llywodraeth leol | | 7.6 | |
| Grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella | | 1.5 | |
| Ardystio ceisiadau am grant | | 1.3 | |
| Archwilio cyrff a noddir gan y Cynulliad a chyrff cyhoeddus cysylltiedig | | 0.6 | |
| Archwilio cyrff GIG Cymru | | 4.9 | |
| Arall | | 1.1 | |
| **Cyfanswm yr incwm** | | **17.0** | |
| ***Gwariant*** | | | |
| Costau staff a chostau cysylltiedig | | 12.8 | i |
| Ffioedd sy'n daladwy i archwilwyr, contractwyr ac ymgynghorwyr a benodir | | 4.1 | ii |
| Adeiladau a swyddfeydd a chostau cysylltiedig | 0.9 | | iii |
| Cyflenwadau a gwasanaethau | 1.0 | | iv |
| Gwasanaethau corfforaethol | 2.2 | | v |
| Taliadau cyfalaf (anariannol) | 0.2 | 4.3 | vi |
| **Cyfanswm y gwariant Refeniw** | | **21.2** | |
| **Cais net am adnoddau** | | **4.2** | |
| Prynu asedau sefydlog | | 0.2 | vii |
| Gofyniad arian parod net | | **4.2** | |

*Nodiadau*

i. Caiff aelodau staff eu trosglwyddo i Swyddfa Archwilio Cymru o ddau gorff gwreiddiol ar amodau a thelerau a ddiogelir. Mae angen i Swyddfa Archwilio Cymru gyflogi gweithwyr proffesiynol o'r radd flaenaf gyda'r creadigrwydd, yr arloesedd a'r effaith i ateb pob her a wynebir ganddi.

ii. Bydd penodiadau archwilio llywodraeth leol a'r GIG a wneir i gwmnïau cyfrifo gan y Comisiwn yn trosglwyddo i'r Archwilydd Cyffredinol tra y parhaent.

iii. Bydd y prydlesau ar yr adeiladau a'r swyddfeydd a ddefnyddir ar hyn o bryd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn cael eu trosglwyddo i'r Archwilydd Cyffredinol. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried y posibilrwydd o symleiddio unwaith y bydd y sefydliad newydd wedi ymsefydlu.

iv. Yn cynnwys gwariant ar ffonau, deunydd swyddfa, argraffu a chyhoeddi.

v. Yn cynnwys gwasanaethau TGCh, Adnoddau Dynol, Cyflogres, Cysylltiadau. Mae gwasanaethau cymorth TGCh yn cyfrif am hyd at £0.75m o'r datganiad refeniw hwn.

vi. Yn cynnwys dibrisiant a ragwelir a thâl llog tybiannol.

vii. Bydd dodrefn ac offer a ddefnyddir ar hyn o bryd gan y ddau sefydliad yng Nghymru yn cael eu trosglwyddo i Swyddfa Archwilio Cymru felly dim ond y gost neu eitemau newydd a brynir yn ystod y flwyddyn a gynhwysir ar y llinell hon.

33. Yn dilyn creu Swyddfa Archwilio Cymru, efallai y bydd yn bosibl symleiddio'r gwaith archwilio i ryw raddau yn arbennig yn y sector iechyd. Fodd bynnag, bydd y posibilrwydd o wneud arbedion effeithlonrwydd cynnar yn gyfyngedig oherwydd, fel yr esboniwyd ym mharagraffau 11 a 12, ni fydd Swyddfa Archwilio Cymru mewn sefyllfa i elwa ar yr arbedion maint sylweddol a gaiff y ddau riant-sefydliad, yn arbennig yn ystod ei blynyddoedd cynnar.

34. Yn ogystal â'r materion sydd eto i'w datrys o ran gorchmynion trosglwyddo a TAW (paragraffau 9 a 25 yn y drefn honno), ar y cam hwn o'r broses gyllidebu erys dau faes yn fy marn i lle mae cryn ansicrwydd wrth geisio rhagweld incwm a threuliau ar gyfer 2005-06:

- nid yw holl gostau creu Swyddfa Archwilio Cymru, sefydliad newydd, yn glir eto. Ni fyddai wedi bod yn briodol i waith manwl ar y broses ddechrau cyn i Fesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) gael ei basio ac felly nid yw'r holl gontractau sydd eu hangen i sicrhau bod y Swyddfa yn gweithio'n llyfn o'r cychwyn cyntaf wedi eu negodi eto; ac
- mae'r ffioedd i'w derbyn – yn arbennig oddi wrth gleientiaid presennol y Comisiwn Archwilio – yn dibynnu ar nifer o ffactorau, megis asesiad risg manwl. Maent yn agored i broses ymgynghori drylwyr ac ni chaiff y broses ei chwblhau tan fis Tachwedd ar gyfer awdurdodau lleol. Fel y dengys Tabl 2, y ffioedd hyn yw cyfran gymharol fawr o gyfanswm yr incwm a byddai unrhyw amrywiad o'r lefelau a ragwelir ar hyn o bryd yn cael effaith sylweddol ar weithrediadau.

Ym mhob achos, rwyf wedi arddel safbwynt doeth wrth ragweld gofynion adnoddau 2005-06.

35. Bydd angen i ni drafod hefyd gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i ba raddau y mae'n briodol trosglwyddo'r costau cynyddol hynny i gyrff a archwiliwyd ac a arolygwyd drwy ffioedd. Costau y bydd y sefydliad newydd yn gorfod eu talu o ganlyniad uniongyrchol i'r uno a'r costau sy'n deillio o gyfraniadau pensiwn cynyddol y cyflogwyr (paragraff 21). Yn dibynnu ar y dyfarniad gan Dollau Tramor a Chartref EM, efallai y bydd angen i ni ofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru, a hyrwyddodd Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) yn y Senedd, fynegi barn ar ba un a ddylid talu'r costau cynyddol hynny drwy ffioedd sylfaenol uwch ar gyfer cyn gleientiaid y Comisiwn Archwilio, cynnydd yng ngrant y Cynulliad, neu gyfuniad o'r ddau. At ddibenion yr amcangyfrif hwn, cymerais yn ganiataol na fydd ffioedd i gleientiaid yn y sector llywodraeth leol ond yn adlewyrchu'r costau cynyddol hynny a fyddai wedi gorfod cael eu talu pa un a fyddai Swyddfa Archwilio Cymru wedi cael ei chreu ai peidio. Ar y sail hon, byddai costau cynyddol eraill yn cael eu talu gan grant y Cynulliad.

**Cais am adnoddau**

36. Gan gymryd yn ganiataol bod y Pwyllgor yn fodlon ar yr ymagwedd y bwriadaf ei mabwysiadu o ran yswiriant (paragraffau 26 i 29 uchod), rwy'n gwneud cais am adnoddau ar gyfer 2005-06 o £4.2 miliwn. Yn yr un modd, y swm arian parod net cyfatebol (ar ôl addasu ar gyfer gwariant cyfalaf a thaliadau anariannol) yw £4.2 miliwn. Oherwydd y cryn ansicrwydd a nodwyd uchod, gall fy ngofynion o ran adnoddau amrywio o'r swm hwn, ond gwnaf bopeth posibl i sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu gweithredu gyda'r lefel grant hon. I'r gwrthwyneb, wrth gwrs, dim ond yr arian hwnnw fydd ei angen y byddaf yn ei dynnu i lawr o gyllid y Cynulliad.  Yn erbyn y cefndir hwn ac i'w ddarparu fe gyda sicrwydd ychwanegol, efallai bydd o gymorth i'r Pwyllgor ofyn i'm harchwilwyr allanol, fel rhan o'u gwaith arferol, i wirio nad yw Swyddfa Archwilio Cymru wedi gofyn am fwy o arian o'r Cynulliad nag sy'n angenrheidiol yn 2005-06.

37. Mae'r amcangyfrif ar gyfer 2005-06 yn cynnwys yr incwm a'r treuliau ar gyfer yr holl waith y disgwylir iddo gael ei wneud neu ei oruchwylio gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ei blwyddyn gyntaf mewn bodolaeth, ac felly mae'n sylfaenol wahanol i'r amcangyfrifon a ystyriwyd gan y Pwyllgor mewn blynyddoedd blaenorol. Ni fyddai'n briodol cymharu treuliau Archwilydd Cyffredinol Cymru yn 2004-05 yn uniongyrchol ag amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2005-06. Er y sylw hwn, rwyf wedi ceisio dadansoddi'r cynnydd yn fy nghais am adnoddau yn Nhabl 3 isod.

**Tabl 3: Cynnydd yn y cais am adnoddau**

| *Eglurhad* | *Cyfanswm y cynnydd £m* | *Cyfeirnod paragraff* |
|---|---|---|
| Gwaith archwilio ychwanegol, yn deillio o ailstrwythuro cyrff cyhoeddus Cymru, gwaith llywodraethu corfforaethol ychwanegol a setliad ariannu Adolygiad o Wariant 2004 | 0.30 | 16 i 20 |
| Cyfraniadau PCSPS cynyddol | 0.60 | 21 |
| Cymorth seilwaith a chostau gwasanaeth canolog y Swyddfa Archwilio Cymru newydd sy’n deillio o annarbedion maint o gymharu â gweithrediadau’r cyn riant-gorff. | 0.35 | 11 i 12 |
| Cynnydd chwyddiannol mewn cyflogau a chostau eraill | 0.10 | |
| **Cyfanswm y cynnydd** | **1.35** | |

38. Dylai’r cynnydd sy’n ofynnol mewn adnoddau (y mae pob elfen ohono’n rheolaidd, yn hytrach nag unigol) gael ei ystyried yng nghyd-destun cyllideb gyffredinol Swyddfa Archwilio Cymru o dros £21 miliwn. I gymharu tebyg â’i debyg, dim ond £0.59 miliwn o’r cynnydd o £1.35 miliwn yr wyf yn ei geisio am y flwyddyn nesaf sy’n berthnasol i gyfanswm yr adnoddau o £2.85 miliwn y gofynnais amdano oddi wrth y Cynulliad am y flwyddyn bresennol; mae gweddill y cynnydd, £0.76 miliwn, yn briodoladwy i waith y gall Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi amdano. Yn dibynnu ar y ffordd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn penderfynu ariannu’r elfen hon o’r cynnydd yn fy nghostau (paragraff 35 uchod), mae’r £4.2 miliwn rwy’n gofyn amdano yn cynrychioli fy uchafswm anghenion o ran adnoddau oddi wrth y Cynulliad.

39. Er yr ansicrwydd hwn ac yn amodol ar yr ansicrwydd hwn, gwahoddir y Pwyllgor i gymeradwyo hyn, sef amcangyfrif cyntaf y Swyddfa Archwilio Cymru newydd, er mwyn helpu i sicrhau bod ei gwaith yn llwyddiant er budd pobl Cymru.

**John Bourn**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
*17 Medi 2004*

*3-4 Park Place*
*Caerdydd*
*CF10 3DP*

**Atodiad A**

## Rhagolwg o gostau sefydlu unigol Swyddfa Archwilio Cymru (a gymeradwywyd gan y Pwyllgor ym mis Mai 2004)

| *Elfen* | *Cyfanswm y gost a ragwelir £000* | *Cyfeirnod y nodyn.* |
|---|---|---|
| Cyfreithiol | 10 | i |
| Cyllid | 100 | ii |
| Cysylltiadau | 80 | iii |
| Adeiladau a swyddfeydd | 25 | iv |
| Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 350 | v |
| Gwasanaethau Cymorth | 20 | vi |
| Adnoddau Dynol | 80 | vii |
| Methodoleg Archwilio | 55 | viii |
| Rheoli Prosiectau | 120 | ix |
| IS-GYFANSWM | 840 | |
| TAW | 147 | x |
| **CYFANSWM** | **987** | |

*Noder: Bydd llawer o'r costau hyn yn ddyledus yn y flwyddyn gyfredol, 2004-05*

### Nodiadau esboniadol

i. Mae costau **cyfreithiol** yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) a'i orchmynion trosglwyddo cysylltiedig.

ii. Mae costau **cyllid** yn cynnwys caffael a rhoi systemau cyllid (cyfrifo), cyflogres a chofnodi taflenni amser hanfodol ar waith.

iii. Mae costau **cysylltiadau** yn cynnwys deunydd swyddfa newydd ac arwyddion newydd a sefydlu gwefan rhyngrwyd a mewnrwyd.

iv. Mae costau **adeiladau a swyddfeydd** yn ymwneud â'r angen i wneud rhai mân newidiadau i adeiladau presennol i ddarparu ar gyfer derbyn aelodau staff y ddau sefydliad presennol.

v. Mae costau **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** yn cynnwys prynu a gosod seilwaith TG newydd, rhwydweithio a thelathrebu ar gyfer y sefydliad newydd.

vi. Mae costau **Gwasanaethau Cymorth** yn cynnwys cymorth arbenigol a chostau sefydlu sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau megis rheoli cyfleusterau, iechyd a diogelwch a phrosesu busnes.

vii. Mae costau **Adnoddau Dynol** yn cynnwys caffael a gweithredu system Adnoddau Dynol, cymorth arbenigol i ddatblygu amodau a thelerau integredig ar gyfer y staff a fydd yn uno i ffurfio'r sefydliad newydd, a threfnu contractau allanol ar gyfer y gwaith o weinyddu pensiynau.

viii. Mae costau **Methodoleg Archwilio** yn cynnwys paratoi Llawlyfr Archwilio unedol, a chostau datblygu meddalwedd cymorth archwilio.

ix. Costau **rheoli prosiectau** yw'r costau ar gyfer y rheolwr prosiect arbenigol i oruchwylio'r broses o sicrhau trosglwyddiad llyfn i'r sefydliad newydd.

x. Mae **TAW** yn daladwy gan yr Archwilydd Cyffredinol ar y treuliau uchod ac ni ellir ei hadennill.